

Polisi Dileu/Atal Cymeradwyo Canolfan neu Gymhwyster Medi 2026

Cynnwys

1.	<u>Cwmpas</u>	3
2.	<u>Rhesymau dros Ddileu/Atal Cymeradwyo Canolfan neu Gymhwyster</u>	3
2.1	<u>Cais canolfan</u>	3
2.2	<u>Methiant i gofrestru ymgeiswyr am gyfnod o ddwy flynedd (anweithgar)</u>	4
2.3	<u>Mae methiant i dalu anfonebau neu wiriadau ariannol CBAC yn dangos risg i ddysgwyr</u>	4
2.4	<u>Methu â chydymffurfio â rheoliadau perthnasol y CGC a/neu ofynion CBAC</u>	5
2.5	<u>Torri Amodau Cyffredinol neu Delerau Busnes CBAC</u>	5
3.	<u>Cefnogaeth i Ddysgwyr</u>	6
4.	<u>Cyngor pellach</u>	7
5.	<u>Rheoli fersiynau ac adolygu'r polisi</u>	7

Polisi Dileu/Atal Cymeradwyo Canolfan neu Gymhwyster

1.0 Cwmpas

Mae'r polisi hwn ar gyfer canolfannau sydd wedi'u cymeradwyo gan CBAC a dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan ganolfannau cymeradwy CBAC y mae eu cymeradwyaeth naill ai'n cael ei atal neu ei ddileu. Mae'r polisi yn nodi'r rhesymau pam y gellir dileu neu atal statws cymeradwy canolfan neu gymhwyster unrhyw ganolfan. Mae hefyd yn esbonio sut y byddwn yn cefnogi dysgwyr lle mae cymeradwyaeth yn cael ei dileu/atal, gan gynnwys mewn achosion lle mae'r ganolfan wedi cau neu wedi mynd i weinyddiaeth.

Mae'r polisi hwn i'w ddarllen ochr yn ochr ag [Amodau Cyffredinol CBAC ar gyfer Canolfannau Cymeradwy](#) a [Thelerau Busnes CBAC](#).

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob canolfan sydd wedi'i gymeradwyo gan CBAC.

2.0 Rhesymau dros Ddileu/Atal Cymeradwyo Canolfan neu Gymhwyster

Mae Amodau Cyffredinol CBAC ar gyfer Canolfannau Cofrestredig a Thelerau Busnes CBAC yn gosod yr amodau lle gellir dileu/atal cymeradwyaeth canolfan neu gymhwyster.

Mae gan CBAC yr hawl i dynnu cymeradwyaeth yn ôl o ganlyniad i un (neu fwy) o'r canlynol:

- cais canolfan
- methiant i gofrestru ymgeiswyr am gyfnod o ddwy flynedd (anweithgar)
- methiant i dalu anfonebau CBAC o fewn yr amserlen ofynnol neu wiriadau ariannol yn dangos risg i ddysgwyr
- methiant i gydymffurfio â rheoliadau perthnasol y CGC a/neu ofynion CBAC
- torri Amodau Cyffredinol neu Delerau Busnes CBAC

Mae'r penderfyniad i dynnu yn ôl neu atal cymeradwyaeth yn cael ei wneud gan uwch staff perthnasol CBAC yn ôl yr amlinellid yn adrannau 2.1-2.5 ac ym mhob achos bydd yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig fel y nodir ym mhob adran.

Mae Amodau Cyffredinol CBAC ar gyfer Canolfannau yn nodi y gall CBAC hysbysu Cyrff Dyfarnu eraill a phartion eraill yn ôl yr angen am unrhyw gymeradwyaeth canolfan sy'n cael ei thynnu yn ôl/atal.

2.1 Cais canolfan

Gall canolfan gofrestredig ofyn am gael cymeradwyaeth y ganolfan wedi'i thynnu'n ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â canolfannau@cbac.co.uk. Dylai'r cais fod gan Bennaeth y Ganolfan neu Gyswllt Dynodedig y Ganolfan awdurdodedig.

Rhaid i ganolfannau gadarnhau'n ysgrifenedig nad oes ganddynt unrhyw ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau CBAC ar hyn o bryd.

Bydd y cais yn cael ei weithredu gan y Tîm Rheoli Canolfannau. Bydd canolfannau yn cael gwybod y gallant ailymgeisio am gymeradwyaeth ar unrhyw adeg, gan nodi na ddylid trin ailgymeradwyo fel mater o ffurfioldeb.

Gan mai cais canolfan yw hwn, nid oes hawl i apelio.

2.2 Methiant i gofrestru ymgeiswyr am gyfnod o ddwy flynedd (anweithgar)

Mae CBAC yn cynnal proses dacluso canolfannau bob blwyddyn, gan wirio am ganolfannau sydd wedi bod yn anweithredol am y ddwy flynedd flaenorol. Ystyrir bod canolfannau yn anweithredol os nad ydynt wedi gwneud unrhyw gofrestriadau o fewn y cyfnod hwnnw.

Bydd canolfannau yn cael gwybod bod eu statws cymeradwy fel canolfan wedi'i ddileu ac y gallant wneud cais am gymeradwyaeth ar unrhyw adeg, gan nodi na ddylid trin ailgymeradwyo fel mater o ffurfioldeb.

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Tîm Rheoli Canolfannau, dan oruchwyliaeth y Pennaeth Rheoli Canolfannau a byddant yn cael eu cyfathrebu i'r Swyddog Arholiadau.

Nid oes hawl i apelio.

2.3 Mae methu â thalu anfonebau neu wiriadau ariannol CBAC yn dangos risg i ddysgwyr

Dylai canolfannau fod â digon o adnoddau ariannol i allu cyflwyno ein cymwysterau, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i gwblhau'r rhain ar ôl dechrau eu cwrs.

Gall dileu cymeradwyaeth y ganolfan ddigwydd pan fo methiant i dalu anfonebau neu lle mae gwiriadau ariannol yn dangos bod risg i ddysgwyr. I ddechrau, bydd y gwasanaeth yn cael ei atal i atal y ganolfan rhag gwneud unrhyw gofrestriadau newydd. Drwy atal gwasanaeth, rhaid i'r ganolfan beidio â pharhau i gofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau CBAC. Ni fydd dysgwyr sydd eisoes hanner ffordd drwy gymwysterau yn cael eu rhwystro rhag ardystio. Unwaith y bydd y dysgwyr presennol wedi'u hardystio, bydd cymeradwyaeth y ganolfan yn cael ei dileu'n llawn.

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr Gweithredol: Cyllid a Chaffael a'r Swyddog Cyfrifol, a bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig â Phennaeth y Ganolfan.

Nid oes hawl i apelio'r penderfyniad hwn.

Bydd canolfannau yn cael eu hysbysu am y dyddiad cynharaf y gallant ailymgeisio am gymeradwyaeth y ganolfan ac unrhyw fesurau y bydd angen iddynt eu gwneud cyn y cais. Ni ddylent chwaith gymryd yn ganiataol y bydd ailgymeradwyo yn cael ei drin fel ffurfioldeb.

2.4 Methu â chydymffurfio â rheoliadau perthnasol y CGC a/neu ofynion CBAC

Gall dileu neu atal cymeradwyaeth canolfan neu gymhwyster ddigwydd o ganlyniad i fethu â chydymffurfio â rheoliadau perthnasol y CGC a/neu ofynion CBAC, o ganlyniad i ymchwiliad camymddwyn neu gamweinyddu.

Mae'r broses hon yn cael ei chynnal gan dîm Cydymffurfio CBAC ac mae'n dilyn y broses a amlinellir yn nogfen y CGC "[Polisiâu a Gweithdrefnau Amheuaeth o Gamymddwyn](#)".

Isod mae sancsiynau dangosol sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, gan gynnwys y math o gamymddwyn neu gamweinyddu:

- **Atal ymrestriadau/cofrestriadau ymgeiswyr**
 - Peryglu buddiannau ymgeiswyr a ymrestrir ar y cymhwyster.
- **Atal ardystiad**
 - Colli uniondeb penderfyniadau asesu; perygl o geisiadau annilys am ardystiad.
- **Tynnu'n ôl cymeradwyaeth ar gyfer un neu fwy o gymwysterau penodol**
 - Parhau i dorri rheoliadau'n ymwneud â chymhwyster penodol.
 - Neu, fethiant yn y trefniadau ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd ar gyfer cymhwyster neu sector/maes pwnc penodol.
- **Tynnu cydnabyddiaeth/cymeradwyaeth y ganolfan yn ôl**
 - Colli hyder ym mhennaeth neu uwch reolwyr y ganolfan.
 - Methiant yn y trefniadau rheoli a sicrhau ansawdd ar gyfer rhai cymwysterau achrededig neu'r holl gymwysterau achrededig a gynigir gan y ganolfan.
 - Methiant i gydweithredu â cheisiadau'r corff dyfarnu i ymchwilio'n drylwyr i gamymddwyn honedig.
 - Methiant i roi cynllun gweithredu penodol ar waith.

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Banel Camymddwyn CBAC a bydd Pennaeth y Ganolfan yn derbyn cyfathrebiad ysgrifenedig o unrhyw benderfyniad.

Mae gan ganolfannau yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn drwy'r gweithdrefnau camymddwyn safonol.

Bydd canolfannau yn cael eu hysbysu o'r dyddiad cynharaf y gallant ailymgeisio am gymeradwyaeth canolfan/cymhwyster ac unrhyw fesurau y bydd angen iddynt eu gwneud cyn y cais. Ni ddylent chwaith gymryd yn ganiataol y bydd ailgymeradwyo yn cael ei drin fel ffurfioldeb. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i atal, bydd y ganolfan yn cael gwybod am y cyfnod amser lle bydd yn ddilys, ac unrhyw fesurau y bydd angen iddynt eu gwneud er mwyn gallu eu dileu.

2.5 Torri Amodau Cyffredinol neu Delerau Busnes CBAC

Gall dileu neu atal cymeradwyaeth canolfan neu gymhwyster ddigwydd o ganlyniad i fethiant Canolfan i gydymffurfio â'n Amodau Cyffredinol neu Delerau Busnes.

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Methu â bodloni'r gofynion cyfredol ar gyfer ei chymeradwyo fel canolfan a/neu i gyflwyno cymwysterau
- Peryglu cywirdeb a diogelwch y system arholi/asesu, neu'n peryglu rhoi enw drwg i system arholi/asesu CBAC, e.e.:
 - Mae canolfan yn marchnata cymhwyster nad oes ganddi gymeradwyaeth ar ei gyfer
 - Mae canolfan wedi gwerthu tystysgrifau twyllodrus i ddysgwyr, gan honni eu bod yn dystysgrifau dilys gan CBAC
 - Mae canolfan wedi cyflwyno dogfennaeth ffug i CBAC, er enghraifft ceisiadau twyllodrus am gymeradwyaeth cymhwyster
 - Mae canolfan wedi cyflwyno gwybodaeth ffug am gymwysterau CBAC i asiantaethau eraill, megis asiantaethau cyllido neu Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA)
- Cafwyd bygythiad, neu achosion gwirioneddol, o gam-drin geiriol neu gorfforol tuag at staff CBAC
- Mae patrwm o dorri telerau ac amodau o natur llai difrifol dro ar ôl tro

Ym mhob achos, byddwn yn ysgrifennu at y ganolfan am natur y toriad(au) a bydd canolfannau yn cael cyfle i ymateb cyn i'r gymeradwyaeth gael ei atal neu ei ddileu. Fodd bynnag, mewn achosion difrifol, gellir atal cymeradwyaeth cyn derbyn ymateb y ganolfan i ddiogelu'r dysgwyr a/neu uniondeb cymwysterau CBAC.

Bydd y penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio a'r Swyddog Cyfrifol, a byddant yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig i Bennaeth y Ganolfan.

Nid oes hawl i apelio'r penderfyniad hwn.

Bydd canolfannau yn cael gwybod am y dyddiad cynharaf y gallant ailymgeisio am gymeradwyaeth canolfan neu gymhwyster ac unrhyw fesurau y bydd angen iddynt eu gwneud cyn y cais. Ni ddylent chwaith gymryd yn ganiataol y bydd ailgymeradwyo yn cael ei drin fel ffurfioldeb.

3.0 Cefnogaeth i ddysgwyr

Pan fydd cymeradwyaeth Canolfan neu gymhwyster yn cael ei atal neu ei ddileu gan CBAC o dan bwyntiau 2.3-2.5, bydd CBAC yn gwneud popeth posibl i gefnogi unrhyw ddysgwyr yr effeithir arnynt. Gall hyn gynnwys:

- Cymorth i leoli canolfan cymeradwy CBAC arall;
- Ardystio ar lefel uned neu gymhwyster fel y bo'n briodol;

Pan fo Canolfan wedi cau'n barhaol neu ar fyr rybudd, bydd CBAC yn cymryd camau rhesymol i gefnogi dysgwyr y gellir effeithio arnynt. Gall hyn gynnwys:

- Cymorth i leoli canolfan cymeradwy CBAC arall;
- Ardystio ar lefel uned neu gymhwyster fel y bo'n briodol;
- Cymorth gyda gwasanaethau ar ôl canlyniadau, e.e. caniatáu i ymgeiswyr gael eu trin fel ymgeiswyr preifat i gyflwyno ceisiadau am Adolygiadau o'r Marcio ac Apeliadau lle mae'r Ganolfan wedi cau'n barhaol;

- Trefnu anfon tystysgrifau ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau eu cymhwyster ond heb dderbyn eu tystysgrifau

4.0 Cyngor Pellach

Dylai canolfannau gyfeirio at y polisi hwn yn y lle cyntaf.

Os oes angen cymorth neu gyngor pellach, gall canolfannau gysylltu â Thîm Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CBAC naill ai drwy e-bostio prs@cbac.co.uk neu ffonio 02920 265 077.

5.0 Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi

Rheoli fersiynau	Dyddiad	Perchennog	Newidiadau	Adolygiad Nesaf
1.0	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio	Creu dogfen Polisi	Awst 2027